# Safonau Celfyddydau i'r Teulu
gyda Family and Childcare Trust

**Mae sefydliadau sy'n ymgofrestru â'r Safonau Celfyddydau i'r Teulu yn gwerthfawrogi teuluoedd ac am ddarparu profiadau teuluol da.**

Bwriad y Safonau Celfyddydau i'r Teulu yw helpu teuluoedd i wybod beth dylent ei ddisgwyl gan sefydliad celfyddydau sy'n dangos logo'r Safonau Celfyddydau i'r Teulu. Maent yn cynnwys yr ystyriaethau sylfaenol i deuluoedd sy'n ymweld ag unrhyw fath o brofiad celfyddydol, o orielau celf i ddramâu, perfformiadau dawns a thu hwnt!

Rydym yn gofyn, ar draws eu gwaith, fod sefydliadau'n ceisio apelio at ystod eang o gynulleidfaoedd teuluol. Nid pob sioe na gweithgaredd a fydd yn addas i deuluoedd, ond dylai sefydliadau sy'n ymgofrestru â'r Safonau Celfyddydau i'r Teulu ddarparu gwybodaeth glir i'ch galluogi i benderfynu beth sydd/sydd ddim yn addas i deuluoedd â phlant a phobl ifainc.

## Bydd sefydliad sy'n dangos logo'r Safonau Celfyddydau i'r Teulu yn:

1. Cynnig rhaglennu a gweithgareddau i ystod o oedrannau.
2. Cymryd camau ymarferol i sicrhau bod perfformiadau/gweithgareddau yn hygyrch i ystod oedran sydd mor eang ag y bo modd: fel y gall digwyddiadau priodol gael eu mwynhau a'u gwerthfawrogi gan bob aelod o'r grŵp teuluol sy'n cymryd rhan.
3. Darparu canllawiau clir ynglŷn â phriodoldeb oedran a chynnwys sensitif fel y gall teuluoedd benderfynu a yw gweithgaredd yn addas iddynt.
4. Ystyried anghenion teuluoedd gan gynnwys materion trafnidiaeth wrth gynllunio dyddiadau gweithgareddau, amserau dechrau a gorffen, hyd perfformiadau/gweithgareddau, hyd egwylion neu doriadau.
5. Prisio digwyddiadau'n glir ac ystyried amrywiaeth teuluoedd wrth ystyried prisio a 'chynigion i deuluoedd'.
6. Holi teuluoedd am eu profiadau a'u barn. Amlygu unrhyw newidiadau sydd wedi'u gwneud ac unrhyw rwystrau rhag cyflawni awgrymiadau eraill.
7. Bod â pholisi cyhoeddus clir i fynd i'r afael â chwynion.
8. Estyn allan at bob teulu a'i groesawu i fwynhau'r celfyddydau a rhoi cynnig ar brofiadau newydd.
9. Deall anghenion teuluoedd o wahanol oedrannau ac o wahanol gymunedau gan aros yn hyblyg ac yn ymatebol iddynt.
10. Sicrhau bod staff yn cael eu hyfforddi i fod yn ymwybodol o'r rhwystrau a all fod i deuluoedd sy'n cynnwys pobl a phlant anabl a'r rheini sydd ag anghenion a/neu ymddygiad cymhleth.

LOTTERY FUNDED
Supported using public funding by ARTS COUNCIL ENGLAND
Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales
Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

11. Bod â staff sy'n barod i helpu ac sy'n gallu ymateb i gwestiynau ac anghenion teuluoedd.
12. Darparu gwybodaeth glir a gonest mewn print ac ar y we am y cyfleusterau sydd ar gael ganddynt, wrth sicrhau eu bod yn darparu:
    a. Cyfleusterau glân a diogel.
    b. Mynediad addas i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn a bygis.
    c. Cyngor os yw nifer y lleoedd i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn a bygis yn gyfyngedig a/neu os oes angen archebu lle ymlaen llaw.
    d. Seddau addas i blant a'r rheini sydd â symudedd cyfyngedig.
    e. Cyfleusterau toiled a newid clytiau babanod sy'n hygyrch y caiff dynion a merched fynd iddynt.
    f. Dŵr yfed am ddim.
    g. Dewisiadau bwyd a diod iachus sy'n addas i deuluoedd (os bydd lluniaeth ar gael).
    h. Seddau cyfforddus ar gyfer bwydo babanod, gan gynnwys bwydo ar y fron.
    i. Arwyddion clir a staff/personél sy'n hawdd eu hadnabod.
    j. Gwybodaeth glir am deithio.

O dan amgylchiadau eithriadol, efallai na fydd deiliaid y safonau'n gallu darparu'r holl gyfleusterau sydd ar y rhestr hon. Os bydd hyn yn digwydd, fe'i hysbysebir yn glir fel y bydd teuluoedd yn ymwybodol o'r cyfyngiadau wrth gynllunio eu hymweliad.

## Beth i'w wneud os nad yw'ch ymweliad neu'ch profiad yn cyrraedd y Safonau Celfyddydau i'r Teulu:

Yn gyntaf, dylid gwirio a yw'r sefydliad y buoch yn ymweld ag ef wedi ymgofrestru â'r Safonau ar [www.familyartsstandards.com](http://www.familyartsstandards.com). Os nad yw, awgrymwch ei fod yn defnyddio'r Safonau i wella'r profiad y mae'n ei gynnig i deuluoedd.

Os yw wedi ymgofrestru â'r Safonau, rhowch eich adborth i'r sefydliad, fel y gall ddysgu o'ch profiad. Dylai gynnig amrywiaeth o ddewisiadau o ran rhoi adborth, felly gallech siarad ag aelod o staff, neu ddefnyddio'r blwch awgrymiadau ac yn y blaen. Os nad ydych yn hapus â'i ymateb, cysylltwch ag Ymddiriedolaeth Teuluoedd a Gofal Plant.
[info@fantasticforfamilies.com](mailto:info@fantasticforfamilies.com)

Ardderchog ar gyfer Teuluoedd

Mae sefydliadau sydd wedi ymgofrestru â'r Safonau Celfyddydau i'r Teulu yn defnyddio bathodyn **Ffantastig i Deuluoedd** i amlygu digwyddiadau sy'n apelio'n arbennig at deuluoedd.

Dyma ddigwyddiadau a gweithgareddau nad ydynt ar gyfer plant yn unig ond sy'n ddifyr i'r holl deulu.

## Eich barn a'ch profiadau
Ymunwch â'r drafodaeth ar beth sy'n gwneud i sefydliadau celfyddydau fod yn ystyriol o deuluoedd a rhannu'ch profiadau (da neu ddrwg) â ni:

@Fantasticforfam #fantasticforfamilies    Fantastic for Families

[www.FamilyArtsStandards.com](http://www.FamilyArtsStandards.com)